

## Adroddiad Blynyddol 2010-2011



## Cynnwys

---

1. Cynnwys	2
2. Amcanion RhAG	3
3. Adroddiad y Cadeirydd	4
4. Adroddiad ar y Siroedd	5
5. Cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol a'r Cyfarfodydd Blynyddol	18
6. Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Aelodau Cynulliad Cymru	19
7. Adroddiad Ariannol	20
8. Canghennau Lleol	21
9. Cysylltu	22

### Swyddogion 2010/2011:

Cadeirydd:	Lynne Davies
Is-gadeirydd:	Swydd yn wag
Ysgrifennydd:	Lynne Griffin
Is-ysgrifennydd:	Kate Parry
Trysorydd:	Alan Lewis
Swyddog Cysylltiadau:	Tim Pearce
Swyddog Ymchwil:	Heini Gruffudd
Ymgynghorydd Cyfreithiol:	Michael Jones

## Pwy ydym ni?

---

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd a diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswilt gwerthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am Strategaeth addysg Gymraeg
- Yr angen i fesur y galw am addysg Gymraeg

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd yn gyson ac yn cynrychioli rhieni ar sail cenedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisïau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd a swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol

## **Adroddiad y Cadeirydd**

---

Thema ein cynhadledd eleni yw “Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ble ydyn ni ar ôl 18 mis?” Mewn gwirionedd, mae’n debygol ei bod yn rhy gynnar eto i weld gwir effaith y Strategaeth, a gyda’r sefyllfa economaidd bresennol, ein pryder oedd y byddai’r posibiladau a gynigwyd yn y strategaeth yn cael eu gwanhau. Croesawn felly benderfyniad y Cynulliad i amddiffyn y gyllideb addysg a’n gobaith yw y cawn weld gwireddu amcanion y Strategaeth maes o law.

Mae’n braf medru nodi fod arolygon lu yn parhau i ddangos bod y galw am addysg Gymraeg yn cynyddu; a’r neges honno’n cael ei atgyfnerthu gyda sawl ysgol Gymraeg newydd yn agor yn ystod 2010-11 gan gynnwys Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, Casnewydd; Ysgol Dewi Sant, Llanilltud Fawr ac Ysgol Nant Talwg, Y Barri. Mae cynlluniau i sefydlu ysgolion newydd hefyd ar y gweill yn RhCT; Wreccsam, Abertawe a Chaerdydd. Unwaith eto, bu grwpiau RhAG dros Gymru gyfan yn gweithio’n ddiwyd er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn eu hardaloedd, yn cyfrannu lleisiau rhieni fel rhan o amrywiol ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau ledled Cymru ac yn ymateb i ddatblygiadau ar lefel cenedlaethol.

Braf hefyd fu cael ymweld â Wreccsam, sef cartref yr Eisteddfod eleni, ble cynhaliwyd trafodaeth flynyddol RhAG, a chafwyd y cyfle i drin a thrafod yr heriau sy’n wynebu addysg cyfrwng Cymraeg yn y gogledd ddwyrain tra hefyd yn dathlu’r twf syfrdanol a welwyd yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf – twf yn wir sy’n parhau.

Bu ein Swyddog Datblygu – Ceri Owen - yn dra gweithgar ac effeithiol eleni eto. Llywiodd y Pwyllgor drwy ymgynghoriadau lu a bu’n llwyddiannus hefyd yn sefydlu canghennau RhAG newydd yn Nhorfaen, Blaenau Gwent a Wreccsam. Bu RhAG hefyd yn cydweithio’n agos gyda Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys ynghyd â mudiad SYFFFLAG yn Sir y Fflint. Bu Ceri a Tim Pearce yn gweithio’n galed i ychwanegu adnoddau newydd at wefan RhAG, gan gynnwys arolygon ar effaith ail-strwythuro addysg ym Mhowys ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Bu’r Pwyllgor Cenedlaethol hefyd yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau yn eu hardaloedd drwy’r flwyddyn. Wrth cwrs mae pryder mawr yn parhau ynglŷn â’r sefyllfa economaidd, gyda RhAG eisioes yn datgan hynny o safbwynt goblygiadau cwtogi cyfraniad cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru at brosiectau – mater sy’n allweddol o safbwynt ehangu addysg cyfrwng Cymraeg mewn sawl ardal. Daw hyn yn sgil penderfyniad y Llywodraeth i newid meini prawf y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain gan leihau eu cyfraniad ariannol hwy o 70% i 50% tuag at brosiectau o 2014 ymlaen. Yn anffodus mae hyn eisoes wedi cael sgil effaith ar rai ardaloedd.

Er hynny, edrychwn ymlaen yn hyderus fel mudiad at gyfnod creadigol o ddatblygu addysg Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf ac at chwarae rhan lawn yn y datblygiad hwnnw.

Lynne Davies  
Cadeirydd Cenedlaethol, Hydref 2011

## Adroddiad ar y Siroedd 2010-2011

---

### ABERTAWE

Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill yn Abertawe. Agorodd Ysgol Gymraeg Tan-y-Lan, ysgol Gymraeg newydd Treforys ym mis Medi 2011. Sefydlwyd yr ysgol ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu dyfal gan RhAG, a daeth y cyfle wrth i addysg Saesneg gael ei had-drefnu, gyda hen Ysgol y Graig yn dod yn wag.

Ar hyn o bryd mae 100 o ddisgyblion o Dreforys yn teithio i ysgolion Lôn-las a Thirdeunaw i gael addysg Gymraeg, ond nawr mae plant yr ardal yn gallu cael addysg Gymraeg heb orfod teithio. Mae'r ddwy ysgol hynny'n orlawn, ac ugeiniau o blant wedi'u gwrthod i addysg Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod tymor yr haf, aeth RhAG ati mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith leol a Mudiad Meithrin i gynhyrchu taflen hyrwyddo a gafodd ei dosbarthu i holl dai'r ardal.

Roedd diffyg ysgol Gymraeg yn Nhreforys yn drawiadol o gofio i'r galw am addysg Gymraeg yn Abertawe gychwyn yno, yn 1947, o dan arweiniad y Parch Trebor Lloyd Evans. Bu Cyngor Eglwysi Rhyddion Treforys yn galw am ddsbarth Cymraeg yn Ysgol Pentrepoeth cyn 1945.

Yr ail ddatblygiad yw'r bwriad i sefydlu Ysgol Gymraeg newydd yn y Cwm, Bonymaen. Mae rhyw gant o blant o ardal Bonymaen a St Tomos ar hyn o bryd yn cael addysg Gymraeg yn Lôn-las a Bryn-y-môr. Daeth Ysgol y Cwm yn rhydd trwy ad-drefnu addysg Saesneg yr ardal. Bwriad Abertawe yw cychwyn yr ysgol hon ym mis Medi 2012. Daeth y cyfnod ymgyngori cyntaf i ben ddechrau mis Mai, a'r gobaith yw y bydd y broses yn mynd yn ei blaen yn ddirwystr.

Mantais y ddau ddatblygiad hyn i'r Sir yw nad oed cost cyfalaf, gan mai adeiladau gwag sy'n cael eu defnyddio i gychwyn yr ysgolion Cymraeg newydd. Y gobaith yw y bydd addysg Gymraeg yn blodeuo mewn dwy ardal arall yn Abertawe.

Nid yw'r Sir, fodd bynnag, wedi datrys y pwysau yn ardal Tregŵyr a gogledd Gŵyr, ac mae RhAG yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach gyda'r Sir ar hyn.

Heini Gruffudd

### BLAENAU GWENT

Ym mis Medi 2010 agorwyd drysau adeilad newydd sbon Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn Nantyglo am y tro cyntaf.

Mae'r ysgol newydd yn di-sodli Ysgol Gymraeg Brynmawr, a sefydlwyd yn 1991 o'r uned flaenorol ym Mrynmawr a sydd bellach yn gartref i dros 300 o ddisgyblion. Codwyd adeilad modern a blaengar ar gyfer yr ysgol - ar gost o £6miliwn - gyda

Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu'r mwyafrif o'r cyllid. Mae'r ysgol hefyd yn gartref i Gylch Meithrin Helyg Bychan ar gyfer plant 2-5 oed.

Tra'n croesawu'r buddsoddiad aruthrol yma gan yr Awdurdod, sydd â'r bwriad o sicrhau'r adnoddau gorau ar gyfer addysg Gymraeg ym Mlaenau Gwent, mae'r angen dros barhau i bwysu am ddatblygiadau pellach yn fwy nag erioed. I'r perwyl hwnnw felly, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus diweddar yng Nghanolfan TCIC, Tredegar ble cafwyd cefnogaeth unfrydol gan rieni lleol o blaid sefydlu cangen Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn yr ardal. Cynhaliwyd cyfarfod swyddogol cyntaf y gangen ar 22ain o Fehefin dan enw RhAG Blaenau Gwent. Un o brif amcanion cychwynnol y gangen fydd ymgyrchu dros sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn ardal Tredegar.

Ar hyn o bryd, yr unig ysgol Gymraeg sy'n gwasanaethu'r awdurdod gyfan yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn Blaenau. Mae pellter yr ysgol o ardaloedd megis Tredegar, yn enwedig ar gyfer plant ifanc iawn, yn bryder i rieni ac yn un o'r prif resymau pam fod cynifer yn dewis peidio ag anfon eu plant i barhau gyda'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ffaith syfrdanol yw fod 55 o blant ar gofrestr darpariath feithrin Tredegar y llynedd a dim ond 8 o'r rhain a drosglwyddod i Ysgol Gymraeg Bro Helyg eleni. Mae pellter felly'n ffactor flaenllaw wrth lesteirio twf addysg Gymraeg ac yn rhwystro rhieni rhag dewis anfon eu plant i dderbyn addysg cyfrwng Gymraeg yn Ysgol Bro Helyg.

Mae'r gangen felly'n edrych ymlaen i gydweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol er mwyn datblygu addysg cyfrwng Gymraeg i'r dyfodol ym Mlaenau Gwent.

I'r perwyl hwnnw, aeth RhAG ati mewn cydweithrediad â'r Mudiad Meithrin i gynnal arolwg ymysg rhieni plant cylchoedd Meithrin Tredegar. Mae prif ganfyddiadau'r arolwg yn dangos yn glir y byddai rhieni o blaid gweld sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg yn y dref. Cafwyd **34** o ymatebwyr i'r arolwg gyda **21** o ymatebwyr (**62%**) yn **debygol** o anfon eu plentyn i ysgol gynradd Gymraeg pe byddai o fewn 2 filltir i'r cartref ac **16 (47%)** o'r ymatebwyr yn **debygol iawn** o wneud hynny.

Mae'r mudiadau, ar y cyd gyda Fforwm Iaith Blaenau Gwent, wedi gwneud cais am gyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg gyda'r bwriad o gyflwyno canfyddiadau'r arolwg i'w sylw ac er mwyn trafod y ffordd ymlaen.

## **BRO MORGANNWG**

Mae Bro Morgannwg wedi derbyn yr anochel wrth i'r sir fynd ati i sefydlu dwy ysgol gynradd newydd, Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr ac Ysgol Nant Talwg yn y Barri.

Dangosodd arolwg mesur y galw a gynhaliwyd yn ystod 2009 y byddai'r galw am lefydd mewn derbynfeydd cyfrwng Gymraeg yn uwch na'r llefydd hynny oedd eisoes yn bodoli yn ysgolion Gymraeg y Fro. Aeth y Cyngor ati'n syth felly i ddechrau ar y broses o gwrdd â'r galw yn y Barri ac i ddarparu, am y tro cyntaf, addysg gynradd Gymraeg yn Llanilltud Fawr. Rhoes Llywodraeth Cynulliad Cymru sêl ei bendith ar y cynlluniau yn Ionawr 2011, oedd yn galluogi'r sir i ddechrau ar yr adeiladu er mwyn bod yn barod erbyn dechrau'r tymor ym mis Medi 2011.

Lleolir Ysgol Nant Talwg, ar dir ysgol uwchradd Gymraeg, Ysgol Bro Morgannwg, ac Ysgol Dewi Sant ar dir yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Llanilltud Fawr. Derbynnir disgyblion meithrin a derbynfa o'r cychwyn cyntaf yn y ddwy ysgol, gyda'r bwriad o gynyddu'r dosbarthiadau fesul mis Medi nes bod ganddynt y saith blwyddyn ysgol arferol.

Tir glas i addysg Gymraeg yw Llanilltud Fawr, er bod y datblygiad yn unioni cam hanesyddol a esgorodd flynyddoedd lawer yn ôl ar ysgol yn y Bontfaen oherwydd nad

oedd adeilad gwag ar gael yn Llanilltud. Mae ysgol y Bontfaen, sef lolo Morgannwg, bellach wedi hen ennill ei phlwyf, ac felly mae'r ffordd yn glir i adennill y bwrlwm yn nhref fwyaf y Fro wledig.

Sefyllfa dipyn yn wahanol a geir yn y Barri. Bydd yr ysgol newydd, ymhen hir a hwyr, yn disodli Ysgol Sant Baruc, er y bydd ganddi ddwy ffrwd yn hytrach nag un. Dwywaith y llefydd, felly, ac mewn ardal gwbl wahanol yn ogystal: mae hyn yn cywiro sefyllfa sydd ymhéll o fod yn ddelfrydol lle mae dwy ysgol Gymraeg, Sant Baruc a Sant Curig, ar bennau ei gilydd ynghanol y dref.

Gofynwyd i ddisgyblion Sant Baruc ddyfeisio enw ar gyfer yr ysgol newydd, ac allan o'r saith enw a ddaeth i'r brig, dewiswyd "Ysgol Gymraeg Gwynfor" gan y llywodraethwyr fel teyrnged i un o feibion enwocaf y dref, sef Gwynof Evans. Fodd bynnag nid oedd hwn at ddant cabinet y cyngor a ddewisodd, yn hytrach 'Ysgol Gymraeg Nant Talwg.

Cafwyd ar ddeall fod swyddogion y sir wedi cadarnhau mewn cyfarfod diweddar fod niferoedd y ddwy ysgol wedi bod yn llewyrchus iawn, ac fod Ysgol Nant Talwg yn arbennig, wedi agor gyda'r ffrwd yn llawn a'r rhagamcanion yn awgrymu'n gryf na fydd yn medru diwallu'r galw am addysg Gymraeg yn yr ardal erbyn Medi 2012.

Tim Pearce

## **CAERDYDD**

Ers dechrau'r flwyddyn mae'r newyddion o'r brifddinas wedi bod yn dda.

Mae problem boenus Ysgol Treganna wedi'i datrys gyda phenderfyniad y Ddinas, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, i adeiladu ysgol newydd sbon ar safle bron yn y dalgylch i agor ym Medi 2013. Golyga hyn gau'r ysgol lloeren i Dreganna, sef Ysgol Tan-yr-eos, fel oedd y bwriad o'r cychwyn ond bydd Tan-yr-eos yn cael aros ar agor tan Gorffennaf 2013 er mwyn cartrefu ail ffrwd Treganna. Bydd Treganna'n agor fel ysgol 3 ffrwd ar ei safle newydd ond nid hi fydd ysgol Gymraeg 3 ffrwd gyntaf Caerdydd gan fod y galw am le wedi golygu y bydd Ysgol Pwll Coch yn cael 3 ffrwd o Fedi 2011 ymlaen - pryd bydd o leiaf 78 plentyn yn dechrau yno. Mae'r sir yn rhagweld bydd nifer y plant fydd yn dymuno derbyn addysg Gymraeg yn cyfiawnhau darparu 180 lle ar gyfer dalgylchoedd Treganna a Phwll Coch o 2013 ymlaen. Deunaw o blant a fynychodd Ysgol Gymraeg Caerdydd ar ei chychwyn ym 1949 yn yr adeilad lle mae Tan-yr-eos dros dro. Bu tipyn o dwf ers hynny.

Problem astrus arall sydd bellach wedi'i datrys yw'r diffyg lle yn Ysgol Melin Gruffydd. Mae'r Gweinidog Addysg wedi cadarnhau cynllun Caerdydd i drosglwyddo'r ysgol i adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd, sydd i'w chau, gyda'r plant yn uno â phlant Ysgol Eglwys Wen. Fe werir dros £4M i ehangu adeilad Eglwys Newydd i dderbyn ysgol 2 ffrwd Melin Gruffydd a dosbarthiadau meithrin yn ogystal. Mae'r rhieni Saesneg wedi dechrau achos am arolwg barnwrol gyda golwg ar ddiddymu penderfyniad y sir a'r llywodraeth ond does fawr o obaith iddynt ennill.

Mae twf y niferoedd yn parhau, gyda chyfanswm y plant yn dechrau ym Medi eleni yn cyrraedd 655, twf o bron i 10% ar ffigwr Medi 2010 o 598. Yr unig ddarpariaeth ychwanegol a sefydlwyd eleni yw agor y drydedd ffrwd ym Mhwll Coch. Mae'r anhawster i ddenu ymgeiswyr am swydd y pennaeth yn golygu ei bod yn well gan y sir ehangu ysgolion sy'n bodoli yn hytrach nac agor ysgolion newydd. Nid yw'n gyfrinach bod gan y sir gynllun hir-dymor i ymestyn Ysgol y Wern hefyd i 3 ffrwd nawr bod yr Ysgol Saesneg drws nesaf ar fin cau, eleni neu yn 2012. Nid yw'r polisi hwn yn gyfyngedig i ysgolion Cymraeg; bu 3 ffrwd yn Ysgol Saesneg Rhiwbeina ers rhai blynyddoedd.

Yn y sector uwchradd mae Ysgol Glantaf wedi dathlu agor Neuadd Chwareuon newydd ac ysblennydd gyda llain "astroturf" at ddefnydd y timoedd hoci a phêl-droed. Mae'r gwaith mewnol ac allanol ar weddill yr adeiladau hefyd bellach wedi'i gwblhau sy'n arddangos wyneb newydd Glantaf i'r byd ac yn adlewyrchu'n well safon yr addysg sydd yno yn lle'r adeiladau o'r cyfnod "austerity" fu yno ynghynt. Bu'r gwariant yn ei gyfanrwydd oddeutu £7M a'r gwaith wedi gweddnwid cyfleusterau'r ysgol yn haeddiannol.

Penderfynwyd ar ddalgylchoedd y 3 ysgol uwchradd (Plasmawr, Glantaf a'r drydedd ysgol newydd arfaethedig) yn ystod y flwyddyn, gan alluogi'r sir i ddechrau trefnu penodi aelodau'r corff llywodraethu cysgodol a fydd yn gweithredu nes y bydd yr ysgol yn agor ym Medi 2012. Bydd y corff cysgodol yn gyfrifol am awgrymu enw i'r ysgol newydd, am benodi ei phennaeth cyntaf a gydag ef/hi am benodi staff i ddysgu a gweinyddu yno. Bydd y pennaeth yn ei swydd erbyn Ionawr 2012 yn ôl y bwriad. Ysgol 4 ffrwd fydd yr ysgol newydd am gyfnod o 2 flynedd yn derbyn plant o ysgolion Bro Eirwg a'r Berllan Deg. O 2014 bydd plant yn dod hefyd o ysgol Pen-y-pil ac o 2016 o Ysgol Penygroes yn ychwanegol. Tua 2018 bydd dros 20 ffrwd o blant yn ceisio lle mewn addysg uwchradd Gymraeg ac erbyn 2020 yn sicr ni fydd modd i'r 3 ysgol uwchradd barhau i dderbyn dros 20 ffrwd a fe ellir edrych ymlaen at sefydlu'r bedwaredd ysgol uwchradd yng Nghaerdydd.

Michael Jones

## CAERFFILI

Pan roedd yn Fardd Plant Cymru ymwelodd y Prifardd Ceri Wyn Jones ag Ysgol y Castell yng Nghaerffili. Fe'i cyfareddwyd o glywed plant cymoedd y de ddwyrain yn bwrw ati i ddysgu'r iaith ac o ddod o hyd i un cymeriad hoffus cafodd ei ysbrydoli i ganu,

Nid côr plant yn cerdd danta yw harddwch  
ond bwrdd y rhai lleia'n  
dweud yn browd iawn 'Bore da'  
yn acen Craig y Rhacca.

Byddai Ceri Wyn yn sicr wedi'i gyfareddu petai wedi ymweld â'r un ysgol ar noson ola mis Mawrth eleni. Roedd y neuadd fawr newydd bron yn llawn o rieni wedi dod i glywed cynigion yr awdurdod lleol ar gyfer dyfodiad addysg uwchradd yn y sir.

Bai'r rhieni yw hyn i gyd, wrth gwrs! Ie, oherwydd nhw sydd wedi creu'r galw am addysg Gymraeg yn y cyffiniau, a hwnnw wedi cyrraedd uchelderau na fyddai neb wedi dychmygu pump, heb sôn am ddeg mlynedd yn ôl! Daeth 414 o blant bach i mewn i'n dosbarthiadau Meithrin yr Ysgolion Cymraeg mis Medi diwethaf. Mae'n debyg y caiff y rhif hwn ei gynnal am y blynyddoedd nesaf. A bydd hyn yn golygu y bydd dros 3,300 o blant ein Hysgolion Cynradd Cymraeg ymhen wyth mlynedd - rhyw fil yn fwy na sydd yno nawr. Yr ateb, llawer yn rhy aml, gan yr awdurdodau yw darparu ystafelloedd dros dro – y terrapins. Ond, ar gyfer tyfiant mor fawr byddai hyn yn galw am agos i bedwar deg terrapin. A does dim lle i fwy o derrapins bellach yn rhan fwyaf o'n hysgolion. Felly, mae'n rhaid ail strwythuro.

Ond wrth i'r niferoedd dyfu yn yr ysgolion cynradd mae hyn yn cael effaith ar yr Ysgol Uwchradd. Petai 414 yn dod i mewn pob blwyddyn dros y cyfnod uwchradd o 7 mlynedd byddai yno bron i 2,900 o blant - ddwywaith y nifer sydd yno nawr! Felly, mis Medi eleni bydd y tro olaf y gall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni dderbyn bob un o blant



Blwyddyn 6 yn Ysgolion Cymraeg y sir. Er bod hyn yn destun dathlu, mae e hefyd yn achos gofid i rieni plant sydd i fynd i'r Ysgol Gyfun yn 2012 ac wedi hynny.

Bu RhAG yn gwthio, ar hyd y blynyddoedd, am gael ail ysgol gyfun yn ardal tref Caerffili, a hynny yn adeiladau ysgol Sant Ilan. Ond cynigiodd yr awdurdod gynllun sy'n rhagori ar hynny. Gyda chynllun y sir caiff pob un o'n plant fynd i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i fyny yn Gellihaf - yn y pen draw. Bydd plant yn mynd safle'r Gwyndy (sef adeiladau'r hen Sant Ilan) ar gyfer eu haddysg ym Mlynnyddoedd 7,8 a 9 cyn trosglwyddo i ganlyn y Cwricwlwm 14 - 19 yn Gellihaf.

Ond nid yng Nghaerffili yn unig y bydd hyn yn digwydd. Gweledigaeth y sir yw y bydd yn rhaid wrth ddwy safle arall debyg, y naill yng nghwm Rhymni, a'r llall ochr draw i'r afon yng Nghwm Sirhywi neu Gwm Ebwy. Bydd y rhain wedyn yn bwydo i mewn i safle Gellihaf a fydd yn ganolfan addysg 14 - 19.

Lle mae'r cynlluniau yn wych mae problemau'n dal i fod ar gyfer ariannu'r holl beth. Cyhoeddodd y Cynulliad na fydd mwy o arian ar gyfer y cynllun Ysgolion C21ain tan 2014. O ganlyniad, er y bwriad i agor yr ysgol yn 2012, bydd yn rhaid i'r Sir roi'r cynllun i'r neilltu am flwyddyn o leiaf - ond bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn orlawn eto yn 2013! Rhif Safonol yr ysgol yw 1448 ac mae 1435 yno eisoes. Nid yn unig mae mwy o bobol yn dewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant ond mae mwy o'n disgyblion yn aros ymlaen i fynd i'r Chweched Dosbarth (109 sydd ym Mlwyddyn 13 ond mae 157 wedi dychwelyd i Flwyddyn 12 eleni). Yn y cyfamser, mae adeiladau hen ysgol Sant Ilan wedi bod yn wag bellach ers rhyw bum mlynedd. Faint mwy bydd y rhain yn dirywio cyn y daw arian i fynd i'r afael â'r sefyllfa?

Derbyniodd rhieni cylch Caerffili lythyr gan y Cyngor yn dweud y bydd lle yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar gyfer plant sydd yn mynd ymlaen i addysg uwchradd ym Medi 2012. Bydd rhai yn gweld hwn fel newyddion da ond mae'n fater sy'n achosi tipyn o bryder i ni yn RhAG. Y rheswm pennaf dros ein hanniddigrwydd yw mai rhyw ateb dros dro yw hwn. Mae hon yn ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd ond mae angen ystyried y plant sydd ym Mlynnyddoedd 5 a'r rhai sy'n iau fyth. Hefyd, mae gorlenwi ysgolion, wrth reswm, yn golygu nad yw cyfleusterau yn ddigonol i ateb nifer y disgyblion. Rydym yn hen gyfarwydd â'r sefyllfa hyn yn ein hysgolion Cymraeg Cynradd â'u terrapins di-ben-draw. Dydy hyn ddim yn rhy ddrwg am un flwyddyn, ond beth sy'n mynd i ddigwydd wedi hynny?

Does dim cyfarfod o RhAG wedi'i gynnal y tymor yma, hyd yn hyn, am ein bod yn aros am fwy o wybodaeth am sut y mae'r cyngor yn mynd i adweithio i'r sefyllfa. Bu swyddogion RhAG yn cyd-drafod ac mewn cysylltiad â'r cyngor ers cyhoeddiad y Cynulliad ym mis Gorffennaf. Ond anodd iawn oedd hyn gyda phobl yn mynd i ffwrdd ar wyliau. Y darlun sydd yn ymddangos nawr yw y bydd yn rhaid gosod cynigion o'r newydd gerbron y Cynulliad er mwyn gwneud cais am arian. A'r cam nesaf yw aros i'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar gyfer y cynigion a dylai'r rhain ddod i law ddiwedd mis Medi. Daeth yn bur amlwg na fydd arian ar gael i gynllun uchelgeisiol y cyngor i sefydlu tair ysgol loeren ar gyfer plant 11 - 14 i fwydo Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Ein bwriad, felly, yw galw cyfarfod o rieni pan fydd gennym wybodaeth fwy pendant. Ond, y pryder mawr yw bod y cloc yn dal i dician a'r gobaith am ateb hir dymor, parhaol, mor bell i ffwrdd ag y bu erioed.

Ben Jones

## **CASNEWYDD**

Roedd mis Medi 2011 yn flwyddyn arall hanesyddol yn hanes twf addysg Gymraeg yng Nghasnewydd gydag agor trydedd ysgol gynradd Gymraeg y ddinas. Dan ofalaeth Mrs Lona Jones-Campbell y Pennaeth Gweithredol, bu wythnosau cyntaf Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yn rhai llwyddiannus iawn a'r plant y rhieni a'r staff wrth eu boddau gyda'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu perthynas dda gyda'r ysgol cyfrwng Saesneg sydd ar yr un safle. Roedd cyfanswm o 16 disgybl (10 yn y derbyn a 6 yn y meithrin) ar gofrestr yr ysgol wrth i'r drysau agor.

Yr her nesaf fydd cadarnhau safle parhaol i'r ysgol, sy'n rhan o gais Ysgolion 21ain Ganrif Cyngor Casnewydd.

Mae'r twf yn parhau ledled y ddinas gydag Ysgol Gymraeg Casnewydd (49 disgybl) ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael (28 disgybl) bellach wedi cyrraedd eu llawn dwf yn y derbyn. Felly newyddion gwych yw medru datgan fod 87 o blant oedran dosbarth derbyn wedi dechrau yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Casnewydd eleni.

## **CASTELL NEDD PORT TALBOT**

Amrywiol iawn fu'r flwyddyn ddiwethaf yn hanes addysg Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cyfuniad o ddiffyg datblygiadau ymarferol, a photensial ardderchog mewn perthynas â chynlluniau sydd ar y gweill.

O dan y trefniadau derbyn newydd i ysgolion, bu'n rhaid i'r sir wneud eithriad yn achos nifer fawr o ysgolion Cymraeg ym mis Medi 2011, a chaniatáu iddynt dderbyn mwy o blant i'r dosbarth meithrin na'r nifer safonol. Mae un ysgol yn ardal Castell-nedd, er enghraifft, â dwbl y nifer safonol o blant yn ei dosbarth meithrin. Dyma dystiolaeth gadarn o'r galw eithriadol o uchel gan rieni am addysg Gymraeg yn y sir – sef 48%, yn ôl ffigurau'r awdurdod ei hun.

Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i agor ail ysgol uwchradd yn ardal ddeheuol y sir o fewn rhai blynyddoedd, yn dilyn uno tair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae'r awdurdod hefyd yn cydnabod bod yna lecynnau lle mae angen gwirioneddol am ysgolion cynradd newydd, lle mae'r ysgolion presennol dan eu sang gyda'r niferoedd yn cynyddu o hyd. Mae'r pwysau mwyaf yn ne'r sir, ac yn dilyn trafodaethau rhwng RhAG a swyddogion y cyngor, mawr obeithiwn y bydd symud cyn hir i agor dosbarthiadau cychwynnol yn yr ardaloedd hyn.

Yn anffodus, siomedig iawn yw hanes Awdurdod Castell-nedd Port Talbot o safbwynt datblygu addysg Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, ond rwyf innau a gweddill swyddogion RhAG y sir yn ffyddiog fod yna haul ar fryn – o'r diwedd!

Eirian Youngman

## **CONWY**

Yn ystod mis Mawrth eleni, aeth corff llywodraethol Ysgol Pencae at i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â throsi statws ieithyddol Ysgol Pencae yn ysgol Gymraeg ddynodedig.

Ar hyn o bryd mae oddeutu 190 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol sydd wedi'i rhannu'n ddwy yn ieithyddol – sef un ffrwd Gymraeg a ffrwd Cymraeg ail iaith – ond fod mwy o blant bellach yn trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg o Blwyddyn 1 ymlaen. Erbyn hyn, deallir fod 55% o holl ddisgyblion yr ysgol o Flynyddoedd 1-6 yn y ffrwd Gymraeg a 45% yn y ffrwd ail iaith. Rhagwelir y bydd 60% o ddisgyblion Bl.1 yn parhau a'u haddysg yn y ffrwd Gymraeg o Fedi 2011 ymlaen. Yn 2010 roedd 29 o ddisgyblion yn y Derbyn a'r rhagamcanion yn awgrymu mai 6 o blant yn unig fyddai'n trosglwyddo i'r ffrwd ail iaith yn Mlwyddyn 1 ym Medi 2011.

Deallwn mai'r cynnig gerbron sydd i ail-strwythuro'r ysgol fel mai un ffrwd fydd yn bodoli ac y bydd y mwyafrif o'r cwricwlwm yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynodd RhAG sylwadau i'r ymgynghoriad yn cefnogi bwriadau'r llywodraethwyr yn frwd ac yn ystod yr wythnosau diwethaf cafwyd ar ddeall eu bod wedi penderfynu cyhoeddi rhybudd statudol yn nodi eu dyhead i newid statws ieithyddol yr ysgol fel ysgol Cymraeg ei chyfrwng.

Cynigir gweithredu'r cynigion ar 1 Medi 2012 i ddisgyblion fydd yn dod i ddosbarth meithrin yr ysgol o 3 Medi 2012, bydd pob carfan sy'n ymuno â'r ysgol ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **PEN-Y-BONT AR OGWR**

Llythyrwyd yn ddiweddar gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg y Sir er mwyn codi nifer o faterion mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn yr awdurdod.

Tynnwyd sylw at y diffyg adborth ar gynllun peilot i fesur y galw ymysg rhieni. Mae'r Sir wedi dewis casglu dyheadau rhieni mewn ffordd amgen i gynnal arolwg drwy'r post ledled y Sir, ac yn hytrach i gasglu datat trwy'r Cofrestrydd Genedigaethau. Dan amodau'r cynllun, caiff rhieni eu holi a fyddent yn dymuno cymryd rhan mewn arolwg mwy cynhwysfawr ac os byddant yn dymuno hynny, byddagnt yn dderbyn holiadur mwy cynhywsfawr drwy'r post.

Er fod y cynllun ar waith ers Ionawr 2011, nid oedd gan swyddogion grynodedb o ystadegau ymatebion y cynllun erbyn cyfarfod diwethad partneriaeth addysg Gymraeg y Sir a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf eleni. Roedd y swyddogion yn cydnabod fod peth 'llithriad' wedi bod a'u bod wedi esgeuluso cynnal unrhyw waith dadansoddi hyd hynny.

Ni lwyddodd cynrychiolwyr lleol RhAG i gael unrhyw wybodaeth pellach tan ganol mis Awst pan nodwyd fod 96 o rieni wedi cwblhau holiadur cychwynnol a ddosbarthwyd gan y Cofrestrydd a 70+ o holiaduron mwy cynhwysfawr wedi'i postio i rieni oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr arolwg. Dim ond 20% oedd y gyfradd ymateb erbyn hynny.

O ystyried fod cyfradd genedigaethau'r Sir oddeutu 1,500 y flwyddyn, byddai disgwyl i'r sampl fod oddeutu hanner y cyfanswm hynny erbyn mis Gorffennaf. Mae'r ffigyrau a ddaeth i law felly'n awgrymu diffyg cydberthynas rhwng nifer y rhieni a ddylai fod wedi cofrestru eu babanod ac o ganlyniad, canran llawer yn is o safbwynt y gynulleidfa darged a ddylid fod wedi ymgysylltu â hwy.

Rhaid cwestiynu felly a yw methodoleg y cynllun peilot dan sylw yn ffordd ddibynadwy o gasglu data cadarn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer blaengynllunio? Cofier mai cyfangwbl wirfoddol yw'r system ac nad oes rheidrwydd i'r Cofrestrydd holi pob rhiant a dosbarthu

holiadur cychwynnol i'w sylw. Mae'n gwbl ddibynol felly ar fymppy unigolyn. Cwestiwn pellach sy'n rhaid ei holi yw a ydi'r cynllun peilot yn cynnig y ffordd orau o rannu gwybodaeth am addysg Gymraeg cyn i rieni wneud unrhyw benderfyniadau?

Mae gorlenwi yn Ysgol Bro Ogwr hefyd yn bryder mawr eleni gyda 61 o ddisgyblion wedi gwneud cais am lefydd yn y Derbyn ar gyfer Medi 2011, sef 7 plentyn dros y rhif derbyn safonol. Mae hyn wrth reswm yn creu problemau sylweddol o safbwynt cynhwysedd a gofod yn yr ysgol ac yn faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy ar fyrder. Cyfeiriwyd hefyd at awgrym a wnaeth swyddog yng nghyfarfod diwethaf partneriaeth addysg Gymraeg y Sir, fod datblygiad tai sylweddol yn yr arfaeth ar gyfer ardal Coity, gydag ysgol newydd yn rhan o'r cynllun. Awgrymodd y swyddog mai ysgol Saesneg ei chyfrwng fyddai'r honno 'mwy na thebyg' a hynny'n honiad heb gyflawni unrhyw arolwg i fesur y galw am addysg Gymraeg. Byddai datblygiad o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar Ysgol Bro Ogwr, sef yr ysgol agosaf, ac sy'n barod dan ei sang.

Nodwyd fod Ysgol Y Ferch o'r Sger hefyd yn 'drwm' o ran dosbarthiadau isaf yr ysgol erbyn hyn a phatrymau twf yn awgrymu'n gryf fod yr ysgol yn prysur gyrraedd ei llawn dwf. Mae hyn yn fwy o bryder gan fod cyflwr yr adeilad yn codi cwestiynau dirfawr o safbwynt iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff.

Cyfeiriwyd at Adroddiad Blynyddol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2010/11 ble nodir mai 2% o gynnydd a gafwyd yn y Sir yn ystod y ddegawd rhwng 2000 – 2010. Mewn cymhariaeth â siroedd cyfagos mae hyn yn siomedig tu hwnt. Awgrymwyd fod y Sir efallai wedi gor ganolbwyntio ar brosesau, megis cynnal cyfarfodydd gweithgorau monitro yn hytrach na symud i gynyddu'r ddarpariaeth mewn gwirionedd.

Cyfrannodd RhAG sylwadau hefyd ar gais Rhaglen Ysgolion 21G y Sir, ble tynnwyd sylw at bryderon nad oedd cynlluniau arfaethedig ar gyfer datblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ond yn hytrach ehangu a chynyddu maint y ddarpariaeth bresennol. Unwaith eto mae hyn yn bryder gan fod angen i'r Sir fod yn edrych ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd eraill gyda'r nos o sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn hygyrch mewn cymunedau lleol.

## **POWYS**

Mae dyfodol addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ne Powys wedi cyrraedd croesffordd bwysig gyda'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn gwneud penderfyniadau tyngedfennol ar foderneiddio addysg uwchradd yn y Sir.

Mae rheidrwydd ar yr Awdurdod i edrych ar drefniadaeth eu ysgolion uwchradd gan nad yw'r gyfundrefn bresennol yn gynladwy oherwydd nifer sylweddol y llefydd gwag, goblygiadau cyllidol a gofynion o ran y cwricwlwm. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddigonol gyda phlant mewn sawl rhan o'r sir yn methu a chael mynediad at addysg Gymraeg gyflawn.

Mae'r opsiynau arfaethedig a gyflwynwyd gan yr Awdurdod wedi ennyn ymateb ffyrnig ymysg pobl leol a'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol yn adlewyrchu hynny. Mae'r argymhellion hefyd wedi codi tipyn o ddi-ddordeb o safbwynt addysg Gymraeg yn y Sir gyda chynigion i sefydlu ysgolion penodedig Gymraeg yn y gogledd a'r de.

Mae ymgyrchwyr o blaid addysg Gymraeg wedi gweld fod cyfle euraidd yma i wireddu'r cynnig hwn gan fod Powys yn hesb o ysgol o'r fath ar hyn o bryd.

Mae'r ymgyrchu yno felly wedi ailgynnau gyda changen Aberhonddu/Pontsenni'n ail gychwyn a changen newydd bellach wedi sefydlu yn ardal Llanfair ym Muallt. Mae'r ddwy gangen yn cydweithio ar yr ymgyrch i sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg i'r ardal dan faner RhAG De Powys. Bu cydweithio agos hefyd yn ystod y flwyddyn gyda Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys. Cynhaliwyd arolwg gan y Mudiad, ac o'r 117 o ymatebion a gafwyd gwelwyd fod (56%) o blaid gweld sefydlu ysgol uwchradd benodedig Gymraeg categori 1 neu 2A yng ngogledd ddwyrain y sir.

Gyda hynny mewn golwg, aeth canghennau RhAG De Powys ati i gynnal arolwg cyffelyb er mwyn canfod barn rhieni dros sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg yn ne'r Sir. Cafwyd canfyddiadau hynod galonogol, ac o'r 121 o ymatebwyr roedd 81% yn gefnogol i'r syniad hwnnw.

Mewn ymgais i geisio rhannu gwybodaeth i rieni'r ardal trefnodd RhAG De Powys gyfarfodydd arbennig er mwyn gwahodd Mr David Williams, Pennaeth Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot i gyflwyno ei brofiadau fel arweinydd ysgol gyfun Gymraeg llwyddiannus. Prif amcan y nosweithiau oedd ysgogi trafodaeth fywiog a chyfrannu i'r ddeialog bwysig am ddyfodol addysg uwchradd Cymraeg yn Ne Powys. Yn wir, bu'r nosweithiau'n llwyddiant ysgubol gan adael rhieni'r ardal yn llawn cyffro am y posibiladau yn eu hardal hwy.

Aeth RhAG De Powys ati mewn cydweithrediad â Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys i gynhyrchu llyfryn arbennig er mwyn amlinellu manteision addysg cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc a chymunedau Powys. Dosbarthwyd y llyfryn i sylw pob un o Aelodau Etholedig Powys cyn iddynt ymgynnull mewn cyfarfod llawn arbennig o'r Cyngor ddydd Llun 3 Hydref. Galwyd y cyfarfod er mwyn trafod Rhaglen Moderneiddio Addysg Uwchradd ac Ôl-16 y Sir. Bu rhai rhieni lleol yno'n rhannu copiau ar fore'r cyfarfod hefyd.

Yn fwy diweddar, cafodd cynrychiolwyr o'r ddwy gangen gyfarfod buddiol ym mis Awst gyda swyddogion y Sir ac mae'n debyg bydd y Cynghorydd Stephen Hayes, Deilydd y Portffolio Addysg, yn cyflwyno ei argymhellion a'r amserlen o safbwynt y camau gweithredu nesaf ar Dachwedd 15fed. Mae awgrym y bydd ymgyngoriad pellach ar rai agweddai o'r cynllun gan gynnwys Addysg Gymraeg.

## **RHONDDA CYNON TAF**

Bu'n flwyddyn gythryblus iawn mewn sawl ardal o Rhondda Cynon Taf wrth i rieni geisio sicrhau llefydd i'w plant mewn dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer uchel o ddosbarthiadau meithrin ysgolion de'r Sir yn llawn gan gynnwys Castellau, Dolau, Beddau, Llwyncelyn a Llantrisant.

Cyrhaeddodd y sefyllfa bwynt argyfwng yn ardal Llantrisant gyda 22 o blant o yn cael eu gwrthod i uned feithrin yr ysgol yn ogystal ag 16 yn nalgylch Ysgol Llwyncelyn.

Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd dwy gangen RhAG newydd gyda rhieni'n awyddus i frwydro yn erbyn y penderfyniad ac i amlygu'r diffyg cynllunio amlwg o du'r Sir i ddiwallu'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'n arwyddocaol mai yn 1990 yr agorwyd yr ysgol Gymraeg ddiwethaf yn RhCT, sef Ysgol Bronllwyn, y Gelli.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Sir eu hunain mewn llythyr gan y Cynghorydd Eudine Hanagan, yr Aelod Cabinet gyda Chyfrifoldeb dros Addysg, y gallai'r awdurdod wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer llefydd meithrin cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol.

Ffaith arall sydd wedi cythruddo a phryderu rhieni yw fod swyddogion yr adran addysg wedi bod yn awgrymu iddynt ystyried addysg cyfrwng Saesneg fel opsiwn amgen.

Yn sgil brwydro ffyrnig gan y canghennau newydd llwyddwyd i gael datrysiadau byr dymor gan y Sir ar gyfer Medi 2011. Cafodd 13 plentyn o'r 22 gwreiddiol a wrthodwyd yn Llantrisant eu derbyn yn uned feithrin yr ysgol a chafodd y gweddill lefydd mewn darpariaethau Cymraeg cyfagos. O safbwynt Ysgol Llwyneclyn, cafodd pob un ond un o'r 16 lefydd mewn ysgolion Cymraeg cyfagos neu yn Llwyneclyn ei hun.

Mae cangen sirol RhCT ynghyd â changhennau Llantrisant a Llwyneclyn yn awyddus i sicrhau fod y Sir yn cynllunio'n gadarn ac yn ddigonol i'r dyfodol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau i fodloni dymuniadau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Ar 26 Medi cyflwynwyd adroddiad gerbron y cabinet yn argymhell datblygu ysgol gynradd Gymraeg ar safle bresennol Ysgol Gyfun Llanhari a fyddai'n ei droi yn gweld sefydlu'r ysgol yn ddarpariaeth 3-19 oed. Mae cangen RhAG RhCT yn croesawu'r datblygiad yn fawr ac yn gwerthfawrogi gwaith caled cynghorwyr a swyddogion y Cyngor er fod peth pryder wedi'i fynegi gan rieni ynglŷn â chael adran gynradd dan reolaeth ysgol uwchradd.

Mae'r gangen yn parhau i boeni'n fawr am y prinder llefydd parhaus yn ne'r sir. Bydd darpariaeth gynradd yn Llanhari yn gymorth i godi'r pwysau yng ngorllewin ardal Llantrisant, ond mae'r galw yn fwy na'r llefydd sydd ar gael i'r dwyrain o'r ardal hyn ar draws Llantrisant, Beddau, Pentre'r Eglwys, Tonteg a'r cyffiniau. Rhagwelir y bydd YGGG Llantrisant yn parhau i wrthod plant ym Medi 2012, oni weithredir yn fuan.

Hoffai'r gangen hefyd dynnu sylw at ddiffyg llefydd i blant mewn addysg Gymraeg yn ardal y Porth. Y mae YGG Llwyneclyn yn llawn a disgwylir y bydd nifer sylweddol o blant yn cael eu gwrthod ym Medi 2012, oni cheir cynnydd yn y ddarpariaeth.

Yn olaf, credir bod sefyllfa debyg yng Nghwm Cynon lle mae tebygolrwydd uchel y bydd plant yn cael eu gwrthod ym Medi 2012.

Dafydd Roberts

## **SIR FYNWY**

Mae'r ddwy ysgol gynradd yn Y Fenni a Chil-y-coed yn ffynnu, gyda niferoedd yn parhau i godi. Dathlodd Ysgol y Ffin ei deng mlwyddiant ym Mis Medi gyda mwy na chant o blant bellach yn mynychu'r ysgol.

Ymddengys o'r arolwg galw diwethaf a gynhaliwyd gan y Sir bod yna bosibilrwydd y bydd mwy na 30 o blant yn ceisio am lefydd yn y ddwy ysgol erbyn 2013. Mae'n glir o'r arolwg bod y galw am addysg Gymraeg yn ardal Trefynwy hefyd yn cynyddu.

Mae plant Sir Fynwy yn mynychu Ysgol Gyfun Gymraeg Gwynllyw yn Nhorfaen. Mae'r gwaith ehangu wedi dechrau yno, ond bydd angen ysgol uwchradd arall erbyn 2015/16 fan pellaf. Mae'r consortiwm AALI yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y mater, ond mae'n peri pryder cynyddol nad oes cynllun pendant eto yn ei le ar gyfer diwallu twf dyfodol addysg uwchradd cyfrwng Gymraeg yn y de ddwyrain.

Lynne Davies

## **SIR FFLINT**

Bu'r flwyddyn diwethaf yn un gythryblus yn hanes addysg cyfrwng Gymraeg yn Sir y Fflint. Cyhoeddwyd cynlluniau gan y Sir mewn perthynas ag ystyried amalgameiddio Ysgol Terrig, Treuddyn sy'n ysgol Gymraeg ei chyfrwng gydag Ysgol Parc y Llan, sef ysgol cyfrwng Saesneg sy'n rhannu'r un safle.

Ymhellach i hynny, cyhoeddwyd gynlluniau eraill gan y Sir oo'u bwriad i greu campws dysgu gydol oes yn Nhreffynnon a fyddai'n cyfuno Ysgol Uwchradd Treffynnon, a holl ysgolion cynradd y dref gan gynnwys yr unig ysgol cyfrwng Gymraeg sef Ysgol Gwenffrwd.

Heb amheuaeth, roedd y cynigion hyn yn gosod cynsail peryglus ac yn peryglu dyfodol addysg cyfrwng Gymraeg yn y Sir – ardal a fu unwaith yn arwain y gad o safbwynt twf a ffyniant addysg Gymraeg.

Cafwyd ymateb ffyrnig i'r cynlluniau hyn a chanlyniad hynny oedd sefydlu grŵp ymgyrchu SYFFLAG (Sir y Fflint dros addysg Gymraeg) gan rieni lleol. Wedi ymgyrchu dygn ganddynt, cafwyd cyhoeddwyd ym mis Medi fod y Sir wedi rhoi'r cynlluniau hynny i'r neilltu.

Serch hynny, mae gwaith mawr eto i'w wneud gan y Sir er mwyn codi ymwybyddiaeth am addysg Gymraeg ac i ddiwallu'r galw sydd eisoes wedi'i brofi. Cynhaliwyd arolwg mesur y galw nôl yn 2009 oedd yn dangos y byddai 33% o rieni yn dewis ysgol cyfrwng Gymraeg pe byddai o fewn 2 filltir i'r cartref. Yr ardaloedd gyda'r galw uchaf ydoedd Cei Connah, Shotton, Bwcle sydd heb ddarpariaeth leol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd dim ond 6% o ddisgyblion Sir y Fflint sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg.

## **SIR GAERFYRDDIN**

Yn ystod y flwyddyn bu i RhAG alw ar Gyngor Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael ar unwaith â phroblem argyfyngus diffyg llefydd yn ysgolion cynradd penodedig Cymraeg y sir.

Cafodd nifer o deuluoedd sy'n byw yng ngyffiniau Ysgol Gymraeg Rhydaman ar ddeall nad oedd eu plant wedi derbyn lle ar gyfer mis Medi 2011. Rhif mynediad swyddogol Ysgol Gymraeg Rhydaman yw 31 disgybl a siomwyd sawl teulu na fyddai modd i'r ysgol dderbyn eu plant am eu bod yn byw tu allan i ddalgylch swyddogol yr ysgol.

Yn wir, gohebodd RhAG gyda'r awdurdod nôl yn Ebrill 2010 i rybuddio fod arwyddion clir bryd hynny am y pwysau cynyddol ar gynhwysedd Ysgol Gymraeg Rhydaman i'r dyfodol.

Yr unig ysgol yn nalgylch Rhydaman sy'n darparu'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Rhydaman. Nid oes modd cymharu'r ddarpariaeth ieithyddol a gynigir mewn Ysgol Benodedig Gymraeg â'r hyn a geir mewn Ysgolion Trosiannol neu Ysgolion Dwy Ffrwd. O dderbyn hynny felly mae cynnig darpariaeth nad yw'n cyfateb i'r addysg a gynigir yn Ysgol Gymraeg Rhydaman yn gynnig anghydradd ac yn gwahaniaethu disgyblion a theuluoedd ar sail daearyddol.

Penderfynodd 4 teulu apelio'r penderfyniad a chynhaliwyd gwrandawiadau'r apêl yn ystod mis Mai. Gyda chefnogaeth RhAG, cafwyd dyfarniad o blaid apel y teuluoedd gyda'r panel yn gwyrddroi penderfyniad y Sir ac yn cytuno i ganiatau mynediad i'r 4 plentyn.

Mae'r sefyllfa dan sylw'n tanlinellu'r ffaith fod cynnydd aruthrol yn y galw o du rhieni am addysg gyflawn Gymraeg ac amharodrwydd ymddangosiadol o du'r Cyngor Sir i flaengynllunio'n strategol i ddiwallu hynny. Mae'n gwbl amlwg fod rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder gan fabwysiadau datrysiadau tymor byr a hir-dymor i'r sefyllfa. Does dim amheuaeth mai parhau i dyfu fydd y galw, ac heb lefydd digonol, parhau i gael eu siomi a'u trin yn anghydradd y bydd rhieni Sir Gaerfyrddin sydd am addysg gyflawn Gymraeg i'w plant.

## **TORFAEN**

Cafodd cangen newydd o RhAG ei sefydlu yn Nhorfaen ar 7 Ebrill 2010.

Un o flaenoriaethau cychwynnol y gangen fydd edrych ar bolisi mynediad brodyr a chwiorydd y sir, gan fod achosion niferus wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag Ysgol Bryn Onnen, Farteg. Er fod gan rieni blant hyn eisoes yn yr ysgol, cafodd nifer ohonynt wybod nad oedd lle i frodyr a chwiorydd iau ddechrau ym Medi 2011.

Mae'r sefyllfa'n sgil effaith uniongyrchol yn dilyn sefydlu Ysgol Panteg, Griffithstown yn Medi 2010 ble ail drefnwyd y dalgylchoedd. Canlyniad hyn fu creu sefyllfa ble mae rhieni a oedd unwaith yn byw yn nalgylch swyddogol Bryn Onnen bellach yn byw tu allan i'r ffiniau hynny.

Cyplysir hynny gyda'r ffaith fod dosbarth meithrin bellach wedi'i sefydlu yn Ysgol Bryn Onnen ac o ganlyniad gostyngwyd y rhif derbyn i 30 disgybl. Yn y gorffennol roedd yr ysgol yn medru derbyn 40-50 disgybl y flwyddyn ond bellach mae hyn wedi'i gyfyngu i 30 disgybl.

Mae'r gangen felly'n galw am ddatrysiad byr dymor i'r sefyllfa er mwyn lliniaru'r problemau presennol ac yn pwysu ar y sir i newid eu polisi er mwyn rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd plant sy'n mynychu Bryn Onnen yn barod ac i anfon plant sy'n newydd i'r system i Ysgol Panteg.

Bu RhAG mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith leol wrthi hefyd yn gweithio ar brosiect i gynhyrchu taflen ddeniadol er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sir. Cafwyd nawdd ariannol hael gan Gronfa Glyndŵr i'n galluogi i gyflawni'r gwaith. Yn sgil hynny, targedwyd dros 1000 o deuluoedd a fydd yn gwneud dewisiadau addysgol ar gyfer Medi 2012 fel rhan o ymgyrch drwy'r post yn ystod mis Medi 2011.



## WRECSAM

Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ysgol Plas Coch, Wrecsam fis Rhagfyr diwethaf cafwyd cefnogaeth unfrydol ymysg rhieni lleol o blaid sefydlu cangen RhAG yn yr ardal. Un o amcanion cychwynnol y gangen ydoedd cefnogi cynllun arfaethedig y Sir i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Delamere Avenue, Gwersyllt ynghyd ag ysgogi datblygiadau pellach o ran addysg Gymraeg ledled Wrecsam.

Mae Ysgol Plas Coch, sef yr ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r dalgylch ar hyn o bryd, yn methu a diwallu'r galw cynyddol hwnnw ymysg rhieni lleol sy'n dewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant, ac o ganlyniad wedi gorfod gosod cabanau fel datrysiad byr dymor i ddygymod â'r twf o ran niferoedd. Yr unig ateb hir dymor yw i sefydlu darpariaeth newydd yn yr ardal a fydd yn fodd o liniaru'r gwasgedd presennol arni fel ysgol. Byddai sicrhau darpariaeth newydd, a hwnnw'n ddarpariaeth hygyrch a lleol, yn fodd o ddiwallu'r galw cynyddol ymysg rhieni gogledd y Sir am addysg cyfrwng Cymraeg.

Ers y cyfarfod hwnnw gwelwyd sawl datblygiad arwyddocaol yn y broses o sefydlu'r ysgol newydd arfaethedig. Ar 4 Ionawr 2011 cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ble cafwyd penderfyniad i roi caniatâd cynllunio amlinellol yn seiliedig ar 33 o amrywiol amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn sicrhau caniatad cynllunio llawn. Bu peth ansicrwydd yn ystod y flwyddyn newydd mewn perthynas â'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer y prosiect gan y Cynulliad, ond ar 17 Mawrth cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai'r ysgol newydd yn derbyn y cyllid yn ôl yr amserlen wreiddiol. Bydd y Cynulliad felly'n cyfrannu 70% o'r costau rhagamcanol gyda Cyngor Wrecsam yn cyfrannu gweddill yr arian.

Ar 1 Chwefror rhoddodd y Bwrdd Gweithredol sel bendith i ryddhau'r datblygiad ar ymgynghoriad Statudol ac ar 14 Ebrill fe gyhoeddwyd yr ymgynghoriad yn swyddogol. Cyfrannodd RhAG sylwadau cefnogol i'r ymgynghoriad hwnnw a ddaeth i ben ar 8fed Medi 2011.

Un elfen o'r ymgynghoriad sy'n peri pryder yw y bydd datblygiad arfaethedig Gwersyllt yn diddymu'r trefniant presennol o gynyddu Rhif Mynediad Ysgol Plas Coch, ac o 2013 ymlaen, yn ei ostwng o 30 disgybl. Pryderwn y bydd hynny'n cyfyngu mynediad at addysg Gymraeg yn nhref Wrecsam i 30 disgybl yn unig. O ystyried y galw cynyddol sydd wedi'i brofi dros y blynyddoedd diwethaf, cred RhAG yn gryf fod hwn yn ffigwr llawer rhy isel. Gallai arwain at sefyllfaoedd posib ble bydd rhieni newydd yn cael gwrthod mynediad i'w plant yn gyfangwbl, neu at wrthod plant sydd eisoes gyda brodyr a chwiorydd yn yr ysgol a'u hannog i fynychu ysgolion Cymraeg eraill - opsiwn cwbl anheg ac anymarferol i lawer o deuluoedd.

Tra'n cydnabod nad yw sefyllfa bresennol Ysgol Plas Coch yn gynaliadwy, rhaid canfod datrysiad i sicrhau na fydd gostyngiad yn Rhif Mynediad canol tref Wrecsam, er mwyn osgoi sefyllfa o wrthod disgyblion i'r dyfodol. Gyda hynny mewn cof, rhaid ystyried hefyd ymweliad diweddar yr Eisteddfod Genedlaethol a fydd yn rhwym o effeithio ar y galw i'r dyfodol.

Fe fydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Wrecsam yn trafod adroddiad sydd yn argymhell cyhoeddi rhybudd statudol Ysgol Gymraeg Gwersyllt ar y 18ed o Hydref gyda'r bwriad i agor yr ysgol yn 2013.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

---

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

26 Ebrill 2010	21 Mawrth 2011
21 Mehefin 2010	23 Mai 2011
20 Medi 2010	18 Gorffennaf 2011
22 Tachwedd 2010	19 Medi 2011
17 Ionawr 2011	

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar:

### **15fed Hydref 2011**

Yn sgil sefydlu trefn newydd mwy effeithiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol y llynedd, cytunwyd mai doeth fyddai parhau gyda'r trefniant hwnnw eleni. Oherwydd fod defnyddio'r system fideo gynadledda yn peri problemau i'r fath raddau penderfynwyd rhoi cynnig ar drefn amgen. Bellach cynhelir y cyfarfodydd yn fisol, fel arfer ar drydydd nos Lun y mis, a hynny ar ffurf cylchdaith mewn amrywiol ardaloedd, sydd fel arfer yn cynnwys Pencoed, Caerdydd a Maesaleg ger Casnewydd. Cynhelir y cyfarfodydd am 7.30 y.h.

Gellir darllen y cofnodion ar ein gwefan yn:

<http://www.rhag.net/dogfennauc.php>

### **Eisteddfodau a gwyliau cenedlaethol**

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe 2011 – cafwyd gofod ar stondin Ysgol Gyfun Gwyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam a'r Fro 2011 – cafwyd gofod ar stondin Ysgol Morgan Llwyd a holl ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal.

Hoffai RhAG ddiolch i'r ysgolion am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod.

### **Trafodaeth Flynyddol RhAG**

Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro  
Dydd Gwener 5 Awst 2011 am 2 yp

### **'Addysg Gymraeg yn Wrecsam a'r Gogledd Ddwyrain: Yr heriau i Gymru'**

Trafodaeth gan banel o siaradwyr amrywiol dan gadeiryddiaeth Heini Gruffudd.

Siaradwyr:

- **Aled Roberts AC** Rhanbarth Gogledd Cymru
- **Ioan Rhys Jones**, Rhiant, Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam
- **Huw Alun Roberts**, Cadeirydd Menter Iaith Sir y Fflint

## **Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

---

- 1 Chwefror 2010 Nerys Evans, Llefarydd Addysg Plaid Cymru
- 15 Chwefror 2010 Paul Davies, Llefarydd Addysg y Ceidwadwyr Cymreig
- 6 Medi 2011 Simon Thomas, Llefarydd Addysg Plaid Cymru
- 12 Hydref 2011 Andrew R. T Davies, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig
- 10 Tachwedd 2011 Bethan Jenkins, Llefarydd yr iaith Gymraeg, Plaid Cymru

### **Cynrychiolaeth RhAG ar weithgorau Cynllun Addysg Gymraeg.**

Mae cynrychiolaeth gan RhAG yn eistedd ar y canlynol:

Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Casnewydd a Rhondda Cynon Taf (Materion Cymreig Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc)

Panel Ymgynghorol gwaith ehangu ac adnewyddu YGG Gwynllyw.

### **Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Iaith**

Torfaen; Mynwy; Blaenau Gwent; Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr

Mae RhAG hefyd yn eistedd ar bwyllgor Partneriaid De Ddwyrain Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ogystal â Grŵp Llywio Erthygl 30 Confensiwn Hawliau Plant (ar y cyd rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Phlant yng Nghymru)

### **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Swyddog Datblygu yn weithgar gydag ymgyrch y Mudiadau mewn perthynas â Mesur yr Iaith Gymraeg a'r ymgyrch i ddiogelu dyfodol S4C.

Cynrychiolwyd y Mudiadau gan Swyddog Datblygu RhAG mewn cyfarfod o Gyngor Partneriaeth yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru – 6 Gorffennaf 2011

### **Cronfa Glyndŵr**

Mae Swyddog Datblygu yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.

## **31 Mawrth 11**

### **RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA 10/11**

#### **Mewn Llaw ar 1 Ebrill 10**

**£8,195.25**

#### **Derbyniadau 1 Ebrill 10 – 31 Mawrth 11**

Tal Aelodaeth	£1,570.00
Grant Bwrdd Y Iaith Gymraeg	£34,183.00
Ffioedd Cyfarfod Blynyddol (Tal am mynychu)	£225.00
Erail	£100.00
Llog	£0.00
Cinio Ethni	£1,040.00

#### **Is Cyfanswm Derbyniadau**

**£37,118.00**

#### **Cyfanswm Derbyniadau Hyd at 31 Mawrth 11**

**£45,313.25**

#### **Gwariant 1 Ebrill 10 – 31 Mawrth 11**

Costau Cyflogi Swyddog	
Costau Tal	£26,675.95
Costau Redeg Y Swydd	£1,968.10
Pensiwn	£1,904.88
Teithio	£3,446.80
Treuliau	£713.45
Ffon Symudol	£240.00
Cynhyrchu Rhagolwg	£1,615.00
Rhedeg Wefan RhAG	£1,299.48
Cynadleddau a Chyfarfodydd	£619.15
Costau eraill	£63.00
Costau Cyrsiau	£0.00
Costau Cinio Ethni	£1,076.07

#### **Cyfanswm Gwariant Hyd at 31 Mawrth 11**

**£39,621.88**

#### **Mewn Llaw ar 31 Mawrth 11**

**£5,691.37**

## Canghennau Lleol - Cysylltiadau

Sir	Enw	Ffôn	E-bost
Abertawe	Heini Gruffudd	01792 455410	heinigruffudd@btinternet.com
Gwent	Alun Tomos		alun_tomos@hotmail.com
Blaenau Gwent	Meryl Darkins		meryl.darkins@btinternet.com
Bro Morgannwg	Tim Pearce	01446 19294	t.j.pearce@ntlworld.com
Caerdydd	Nona Gruffudd-Evans		mathew.nona@ntlworld.com
	Michael Jones		michaelandethni@googlemail.com
Casnewydd/Newport	Elin Maher	01633 243700	elin.maher@ntlworld.com
Castell-nedd/Neath Port Talbot	Eirian Youngman		eirian@englishwelsh.org
Caerffili	Ben Jones	029 2086 2428	benamary2000@yahoo.co.uk
Mynwy/Monmouthshire	Lynne Davies		lynne.davies@cancer.org.uk
Pen-y-bont/Bridgend	Mal John	01656 650071	maljohn1@hotmail.com
Powys (Aberhonddu / Pontsenni)	Lynne Griffin		lynne@griffinrally.com
Buallt (Llanfair-ym-Muallt a'r Cylch)	Stephen Mason		coednorth@tiscali.co.uk
Rhondda Cynon Taf	Dafydd Roberts		dafydd@glancreigiau.plus.com
Dinefwr (Dyffryn Tywi)	Cefin Campbell		cefin@sbectrwm.com
Torfaen	Marcus Warner		marcus_warner@hotmail.com
Wrecsam	Jeremy Salisbury		jeremy.salisbury@talktalk.net

## Cysylltu

---

Ceri Owen  
Swyddog Datblygu  
Rhieni dros Addysg Gymraeg  
Tŷ Cymru  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
Caerdydd  
CF23 8RD

02920 739207  
07912175403  
[ceri@rhag.net](mailto:ceri@rhag.net)

[www.rhag.net](http://www.rhag.net)

<http://www.facebook.com/#!/profile.php?id=1537207430>